# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p6): 17 Ionawr 2008

### Deiseb cyf P-03-070: Marchnad Wartheg Bryngwyn - Ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb hon.

### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn galw am i Lywodraeth Cynulliad Cymru 'alw i mewn' y cais cynllunio hwn ar gyfer marchnad wartheg ar dir amaethyddol ger Bryngwyn yn Sir Fynwy.

Ystyriwyd y ddeiseb yn gyntaf gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod 20 Medi 2007. Penderfynodd y Pwyllgor gyfeirio'r ddeiseb hon at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Cadeirydd ar 18 Hydref 2007. Eglurodd y llythyr hwn fod y Gweinidog wedi derbyn 'sawl cais i alw i mewn y cais cynllunio hwn' a'i fod yn ystyried y ceisiadau hyn. Cytunodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor ynghylch canlyniad yr ystyried.

Ar 18 Rhagfyr 2007 ysgrifennodd y Gweinidog at y Cadeirydd gyda'r wybodaeth hon. Mae'r Gweinidog wedi dod i'r casgliad:

'...nad yw'r datblygiad arfaethedig yn codi materion fyddai'n gwarantu tynnu'r penderfyniad ynghylch y cais allan o ddwylo'r awdurdod cynllunio lleol.'

Darparwyd copi o'r llythyr hwn i'r prif ddeisebydd. Atodir copi arall i'r papur hwn yn Atodiad A.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ymateb y Gweinidog a phenderfynu ar unrhyw gamau ymhellach.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008